Sgiliau i Weithwyr Proffesiynol sy'n Dysgu

Dysgu Gydol Oes yn y DU
Y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Dysgu Gydol Oes

Ymateb i *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru:*

'Dull gweithredu newydd o ran Dysgu Oedolion yn y Gymuned'

19 Rhagfyr 2008

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Mark Isherwood
Rheolwr Sector, Cymru
Dysgu Gydol Oes yn y DU
Swyddfa: 02920 660238
Symudol: 07738195272
E-bost: markisherwood@lluk.org

Dysgu Gydol Oes yn y DU

Dysgu Gydol Oes yn y DU (LLUK) yw'r Cyngor Sgiliau Sector annibynnol a arweinir gan gyflogwyr sy'n cynrychioli'r Sector Dysgu Gydol Oes.

Ein prif nodau yw:

- lleihau bylchau a phrinderau sgiliau
- gwella cynhyrchedd, perfformiad busnes a pherfformiad gwasanaeth cyhoeddus
- cynyddu cyfleoedd i hybu sgiliau a chynhyrchedd pawb yng ngweithlu'r sector
- gwella'r cyflenwad dysgu

Mae LLUK yn darparu'r safbwynt strategol ar gyfer cynllunio a datblygu'r gweithlu i'r sector ar draws pedair gwlad y DU.

Rydym yn cynnwys y cyflogwyr hynny y mae eu busnes pennaf yn ymdrin â chyflwyno neu gefnogi dysgu i oedolion a phobl ifanc y tu allan i'r ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- addysg bellach;
- addysg uwch;
- dysgu seiliedig ar waith a darparwyr hyfforddiant preifat;
- llyfrgelloedd, archifdai a gwasanaethau gwybodaeth;
- dysgu a datblygu cymunedol – sy'n cynnwys ymhellach:
    - datblygiad cymunedol
    - gweithio gyda rhieni
    - gwaith ieuenctid
    - addysg ddatblygu
    - dysgu oedolion yn y gymuned
    - dysgu teuluol
    - addysg gymunedol

Ni yw'r corff sy'n rhychwantu'r DU sy'n gyfrifol am ddiffinio a datblygu safonau galwedigaethol y Sector Dysgu Gydol Oes a Strategaeth Gymwysterau'r Sector. Defnyddir y safonau hyn i lywio recriwtio a datblygiad proffesiynol staff ein cyflogwyr.

Ymateb i Cyflawni Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru; *'Dull gweithredu newydd o ran Dysgu Oedolion yn y Gymuned'*:

Mae Dysgu Gydol Oes yn y DU (LLUK) yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) ar Ddysgu Oedolion yn y Gymuned.

Mae LLUK yn gweithio gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid y Sector Dysgu Gydol Oes yng Nghymru ac yn eu cefnogi. Yn ogystal â'r sylwadau rydym yn eu gwneud isod, hoffem hefyd gadarnhau a chefnogi ymatebion etholaethau penodol a wnaed gan:

- Gymdeithas y Prif Lyfrgellwyr
- FFORWM
- NIACE Dysgu Cymru
- Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA)
- Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru
- Dysgu Cymunedol Cymru

Mae ymateb LLUK yn canolbwyntio ar yr heriau Datblygu'r Gweithlu a fydd yn wynebu cyflogwyr yn y Sector Dysgu Gydol Oes fel asiantau cyflwyno Dysgu Oedolion yn y Gymuned.

Cred LLUK mai cenhadaeth a phwrpas y System Dysgu Gydol Oes yw:

Rhoi i unigolion, ym mhob rhan o'r gymuned/gymdeithas, y cymysgedd presennol o sgiliau ynghyd â'r awydd hirdymor i gychwyn ar gontinwwm dysgu (yn anffurfiol ac yn ffurfiol) gydol eu hoes a fydd gyda'i gilydd yn eu cefnogi drwy gydol eu bywydau, gan roi'r wybodaeth a'r sgiliau iddynt sy'n eu galluogi i:

- ***gael cyflogaeth (ar unwaith yn fyrdymor)***
- ***aros mewn cyflogaeth (dysgu gydol oes)***
- ***bod yn ddefnyddwyr deallus***
- ***bod yn unigolion, yn rhieni ac yn ddinasyddion gwybodus a chraff sy'n gwneud cyfraniad***

Mae LLUK yn croesawu'r ffaith bod cwmpas yr ymgynghoriad yn ehangach na cholegau AB, Awdurdodau Lleol ac yn cydnabod y rolau penodol sydd gan bob un o etholaethau amrywiol dysgu gydol oes i'w chwarae wrth gefnogi'r agenda sgiliau.

Edrychwn ymlaen at weld datgan ***cenhadaeth strategol*** sydd wedi ei diffinio'n glir yn un o brif ganlyniadau'r adolygiad ac argymhellion o ran blaenoriaethau cyfeiriad Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn y dyfodol oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Cred LLUK fod y gwahanol etholaethau o fewn y system addysg bellach yn ceisio cyrraedd dysgwyr ar lefelau gwahanol ac mewn lleoliadau gwahanol:

- ***Colegau Addysg Bellach***: Y 23 o golegau AB a'r 2 sefydliad AU yw prif gyflwynwyr cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol yng Nghymru.
- ***Dysgu Seiliedig ar Waith***: Mae DSW yn asesu a/neu'n cyflwyno rhaglenni galwedigaethol yn aml yng ngweithle'r cyflogwr. Mae'r swyddogaeth hon yn cael ei chyflawni gan ddarparwyr preifat, darparwyr a ariennir yn gyhoeddus, colegau addysg bellach, ac addysg uwch.
- ***Dysgu a Datblygu Cymunedol:*** Mae'r swyddogaethau hanfodol sy'n cael eu cyflawni gan 7 elfen Dysgu a Datblygu Cymunedol yn yr agenda dysgu a sgiliau yn cael eu cofnodi yn Atodiad 1.
- ***Llyfrgelloedd, Archifdai a Gwasanaethau Gwybodaeth:*** Yn cynnig llwybr hawdd mynd ato, di-dâl a chefnogol ar gyfer dysgu anffurfiol/ffurfiol sy'n cefnogi astudio sy'n digwydd ym mhob agwedd arall ar y Sector Dysgu Gydol Oes. Mae ganddynt rôl mewn cynyddu mynediad i ddysgu yn y gymuned a darparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad. Ehangodd 'Rhwydwaith y Bobl' ddefnydd TGCh ledled Cymru drwy hyfforddi staff llyfrgelloedd yn y sgiliau

i gefnogi'r cyhoedd.

- ***Addysg Uwch (mewn perthynas â'r System Dysgu Gydol Oes):*** Yn gynyddol mae AB yn dod yn sianel gyflwyno gydnabyddedig ar gyfer cymwysterau sydd wedi eu dylunio a'u hachredu gan AU – mae gan hyn oblygiadau sgiliau safonol ymarferwyr cyflwyno dysgu. Gall enghreifftiau o'r berthynas hon gael eu gweld yn system yr Alban lle mae colegau AB erbyn hyn yn cael eu galw'n Golegau'r Alban oherwydd y lefelau uchel o raglenni AU maent yn eu cyflwyno. Mae gan y bartneriaeth strategol hon oblygiadau pwysig o ran ehangu'r agenda gyfranogiad, a chyflawni targedau lefel 4 a bennwyd gan Leitch. Yn ogystal, mae gan AU rôl allweddol yn 'hyfforddiant' yr athrawon/tiwtoriaid/hyfforddwyr ar gyfer gweithwyr proffesiynol dysgu oedolion yn y gymuned a gweithwyr proffesiynol eraill.

1. A ydych yn cytuno â'r diffiniad a gynigiwyd gennym o Ddysgu Oedolion yn y Gymuned ar gyfer y polisi?

Byddai diffiniad clir cytûn o ddysgu oedolion yn y gymuned yn ddefnyddiol i gyflogwyr ac i randdeiliaid fel ei gilydd ond mae angen iddo gydnabod diffiniadau presennol yn y DU a'r ddealltwriaeth bresennol.

O fewn y sector dysgu gydol oes, mae'r cyflogwyr yn ymrannu'n bum etholaeth fras:

- Dysgu a datblygu cymunedol (DDC)
- Addysg Bellach (AB)
- Addysg Uwch (AU)
- Llyfrgelloedd, archifdai a gwasanaethau gwybodaeth (LlAGG)
- Dysgu seiliedig ar waith (DSW)

Mae dysgu a datblygu cymunedol yn cynrychioli'n bennaf dysgu anffurfiol a ffurfiol sy'n digwydd mewn lleoliadau yn y gymuned, yn ogystal â gweithgarwch penodol datblygiad cymunedol a gwaith ieuenctid. Mae'r etholaeth DDC yn cynnwys saith elfen ar wahân (Atodiad 1) gan gynnwys:

- **Dysgu oedolion seiliedig yn y gymuned** – cyfeirir at hyn weithiau fel **Dysgu Oedolion yn y Gymuned**. Mae hyn yn cynnwys oedolion ifanc drwodd i bobl hŷn ac yn digwydd mewn amrediad o gyd-destunau o ganolfannau cymunedol sy'n canolbwyntio'n bennaf ar addysg oedolion, i sefyllfaoedd gwasanaethau cymdeithasol, prosiectau adfywio a'r gweithle.
- **Addysg gymunedol** – sy'n cwmpasu'r amrediad o anghenion dysgu gydol oes gydag ymagwedd agos iawn o ran gwaith gydag oedolion, pobl ifanc a phlant, a rhoi cefnogaeth addysgol gyda datblygiad cymunedol. Ei phwyslais yw darparu cymorth dysgu yn y gymuned i unigolion a grwpiau ar sail anghenion a materion sydd wedi eu hadnabod.

Mae dysgu oedolion yn y gymuned yn chwarae rôl fawr mewn meithrin cynhwysiant cymdeithasol a chefnogi adnewyddu sifil. I rai dysgwyr, efallai y bydd cymwysterau sy'n gysylltiedig â gwaith yn nod ynddynt eu hun, ond i eraill efallai bod dysgu'n ymwneud â datblygiad personol gan gynnwys sgiliau sylfaenol neu sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith yn y gymuned:

Mae LLUK yn cefnogi'r chwe phwrpas am ddysgu a ddiffiniwyd gan NIACE a dylai'r rhain gael eu defnyddio i gynllunio'r cwricwlwm dysgu oedolion yn y gymuned.

Dylai dysgu oedolion yn y gymuned aros yn ôl-16 am fod ganddi rôl bwysig i'w chwarae yn y ddarpariaeth llwybrau 14-19 ac ymdrin â phroblem ddifrifol y sawl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEETs) yng Nghymru.

Gallai'r diffiniad presennol gael ei ddehongli fel eithrio cyrsiau galwedigaethol yn y gymuned gyda llwybrau dilyniant amlwg at gyflogaeth a dylai gael ei wneud yn glir ei fod yn cynnwys darpariaeth ddysgu ffurfiol ac anffurfiol.

2. Ai'r Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned yw'r model gorau ar gyfer cynllunio ac ariannu'r ddarpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned?

Mae LLUK yn cydnabod bod partneriaethau, pan fyddant yn gweithio'n effeithiol, yn annog darparwyr i gydweithredu; yn cyd-drefnu'r cynigion dysgu lleol; yn hwyluso datblygu a gwella; ac yn creu cysylltiadau strategol. Mae dysgwyr, cymunedau a phartneriaid unigol yn elwa lle bydd darparwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus. Fodd bynnag mae'r ad-drefnu sy'n cael ei gynnig **yn canolbwyntio ar gyflenwad yn hytrach na'i arwain gan y galw.**

Mae angen ystyried y Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned arfaethedig o fewn cyd-destun y cynigion Trawsnewid Addysg a Hyfforddiant. Byddai hyn yn sicrhau bod dysgu oedolion yn y gymuned yn chwarae rhan weithgar yng nghontinwwm y ddarpariaeth ddysgu gyda synergedd rhwng pob cyfnod dysgu. Gallai partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned ar wahân arwain at ymylu'r sector.

Dylai'r Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned gydnabod cyfraniad cenedlaethol ac unigryw arbennig o leiaf tri chorff allweddol – Coleg Harlech/Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yn y Gogledd; Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yn y De a Choleg Cymunedol y YMCA. Byddai'n hynod o lafurus ac yn or-fiwrocrataidd petai angen i reolwyr a staff y tri chorff hyn fynychu cyfarfodydd mewn partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned ar lefel leol.

Bydd angen sefydlu canllawiau clir a chodau ymddygiad a datblygu cofrestri buddiannau er mwyn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n agored, yn dryloyw ac yn onest. Mae angen rheolau a phrotocolau i ymdrin â threfniadau ar gyfer comisiynu ceisiadau, penderfynu pa geisiadau sy'n dderbyniol a thrafod apeliadau yn achos ceiswyr aflwyddiannus. **Dylai datblygiad fframwaith arfer gorau gan LlCC roi arweiniad ar lywodraethu a dosbarthu arian o fewn partneriaethau.**

Nid yw'n glir pam mae arian Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned sy'n cael ei gyflwyno gan sefydliadau Addysg Uwch (AU) yn cael ei hepgor o gylch gorchwyl y partneriaethau arfaethedig. **Fel lleiafswm, dylai'r partneriaethau ystyried yr holl ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned sy'n cael ei chyllido gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.**

Mae angen cynnwys effaith polisi ffioedd yn yr adolygiad o Ddysgu Oedolion yn y Gymuned. Nid oes dwywaith y bydd y polisi hwn yn effeithio'n sylweddol ar ddysgwyr dysgu oedolion yn y gymuned ac fe allai arwain at gystadleuaeth ymhlith darparwyr i gyflwyno i'r dysgwyr hynny sy'n fwyaf tebygol o allu talu. Bydd angen i ddatblygiad **polisi cyfraniadau** gael ei ategu gan raglen datblygu'r gweithlu (Cytundeb Sgiliau Sector LLUK elfen 5 – Cael ei Arwain gan y Galw).

Hefyd dylai'r partneriaethau ymgysylltu â darparwyr sydd yn draddodiadol heb gael eu hystyried gan LlCC fel rhai sy'n dod o fewn y sector dysgu oedolion yn y gymuned, ond sydd yn aml yn darparu cyfleoedd dysgu i'r grwpiau blaenoriaeth a nodir o fewn y ddogfen ymgynghori. Er enghraifft: darparwyr **Dysgu seiliedig ar Waith** sy'n cyflwyno rhaglenni yn y gymuned (fel Skillbuild a'r Fargen Newydd); **llyfrgelloedd ac amgueddfeydd**; a grwpiau sy'n cynrychioli cyrff iechyd, **partneriaethau cymunedau'n gyntaf**, cyrff chwaraeon a hamdden a chyrff y **trydydd sector**.

3. A ydych yn cytuno â nifer a lleoliad arfaethedig y Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned?

Mae'r Partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned a gynigir yn mynd yn groes i Bartneriaethau Dysgu presennol. **Dylai dysgu oedolion yn y gymuned fod yn rhan gynhenid o'r broses drawsnewid ehangach, a ddylai fod yn sail i ddatblygiad pob partneriaeth newydd ôl-16.**

Mae angen cymryd i ystyriaeth blaenoriaethau LlCC ar lefel genedlaethol a strategol gan ddyrannu arian cyfatebol i'r holl weithgareddau cysylltiedig fel datblygu staff, DPP a mentrau i wella ansawdd er mwyn cyflawni'r amcanion hyn. Ar hyn o bryd mae'r sector dysgu oedolion yn y gymuned yn dioddef morâl staff isel oherwydd adnoddau cyfyngedig ac ymdeimlad o fod ar y cyrion yn nhermau statws a gwerth. **Er mwyn proffesiynoli'r gwasanaeth i ddenu staff newydd a chynnig dilyniant gyrfa, bydd datblygiad staff a DPP yn hanfodol.** Mae'n gwneud synnwyr ariannu'r gweithgareddau hyn ar lefel y bartneriaeth, yn enwedig mewn partneriaethau bach. Bydd angen strwythur rhanbarthol a chenedlaethol i gydlynu a gyrru blaenoriaethau cenedlaethol, cynnal safonau a mentrau ansawdd uchel ar gyfer datblygiad proffesiynol staff.

4. Sut y gall y Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned arfaethedig weithio'n fwyaf effeithiol â phartneriaethau a threfniadau cynllunio presennol?

Dylai partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned fod yn rhan gynhenid o'r isadeiledd dysgu ôl-16 a'r agenda drawsnewid, gydag aelodaeth ddigon eang a chysylltiadau sydd wedi eu diffinio'n glir â phartneriaethau eraill.

Mae manteision pwysig drwy weithio mewn partneriaeth gan gynnwys adeiladu ar arfer da presennol. Ond mae angen mwy o wybodaeth am:

- ariannu partneriaethau, gan gynnwys eglurdeb o ran eu llywodraethu, rôl y 'corff arweiniol' neu'r 'banciwr', a dosbarthiad arfaethedig cyllid dros ardaloedd daearyddol
- sicrwydd ansawdd – er bod rhai enghreifftiau o arfer rhagorol a chydweithio, ar hyn o bryd mae gan lawer o ddarparwyr systemau sicrwydd ansawdd gwahanol
- Rôl addysg uwch - mae llawer o bartneriaethau yn gweithio ar hyn o bryd gyda sefydliadau AU ac yn awyddus i sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad i lwybrau dilyniant addas. Ond mae modelau ariannu, arolygu a sicrwydd ansawdd amrywiol ar waith sy'n gweithredu yn erbyn partneriaethau agosach.

Mae cydweithio'n effeithiol yn mynnu cylch gorchwyl clir ac arian digonol. Fel lleiafswm, mae angen buddsoddi adnoddau er mwyn helpu partneriaethau i gynllunio. Dylai LlCC hefyd ystyried datblygu technoleg i gynorthwyo cyfathrebu effeithiol, cynllunio a rhannu adnoddau o fewn a rhwng partneriaethau

Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddysgu o brofiad CCET a pheidio â'i ailadrodd.

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru arwain drwy enghraifft hefyd a dangos mwy o waith partneriaeth ei hun ar draws ei hadrannau gyda'r opsiwn o gyd-rannu cyllidebau i gyflwyno dysgu oedolion yn y gymuned.

5. A ydych yn cytuno â'r nod o gynyddu hyblygrwydd er mwyn cefnogi gwaith dysgu anffurfiol drwy'r Cynllun Grant?

Rydym yn cefnogi'n llawn yr angen i roi i ddysgwyr gyfleoedd anffurfiol ac weithiau gyfleoedd heb eu hachredu. Mae'r rhain yn galluogi dysgwyr sydd wedi methu â llwyddo yn y gorffennol i fagu eu hyder wrth ddysgu a'u hunan-barch i hybu eu siawns mewn bywyd. **Er hynny byddem yn cadarnhau pwysigrwydd, yn addysgol i'r unigolyn ac yn strategol i'r sector, y dylai pob darpariaeth gael ei chynllunio gan nodi a chyd-drefnu llwybrau dilyniant clir.**

Mewn egwyddor, cefnogwn gynnwys cyrff y trydydd sector mewn partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned ond mae gennym bryderon, mewn amgylchedd heb dwf, y gallai'r cyllid craidd gael ei frigdafellu o adnoddau presennol i ariannu'r cynllun grant arfaethedig. Hefyd mae risg y gall cynyddu nifer y darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned, heb gynyddu'r gyllideb gyffredinol,

danseilio'r isadeiledd gymaint y gall darpariaeth bwysig ddod yn amhosibl ei chynnal mewn rhai ardaloedd.

Nid yw datblygu cynllun grant ar gyfer y meysydd a ddiffinnir yn unig yn delio â'r mater mwy difrifol sef sut mae cefnogi ac ariannu'r isadeiledd mae ei angen i ddatblygu ymagwedd gydlynus at ddysgu oedolion er mwyn diddori, ysgogi a chynnig llwybrau dilyniant i oedolion sy'n dysgu.

6. A ydych yn cytuno â'r meini prawf a nodir ym mharagraff 2 o adran 3 y bydd yn rhaid i ddysgwyr eu bodloni er mwyn cael eu hariannu drwy Ddysgu Oedolion yn y Gymuned?
A
7. A ydych yn cytuno â'r blaenoriaethau y dylai'r maes Dysgu Oedolion yn y Gymuned geisio mynd i'r afael â hwy, a nodir ym mharagraff 6 o Adran 3?

Lle bydd **cymhellion polisi yn golygu newidiadau** yng ngwybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau ymarferwyr neu fwy o ymarferwyr i'w cyflwyno (e.e. sgiliau sylfaenol, ESOL, sectorau sy'n bwysig yn economaidd, rôl Hyfforddwr Dysgu, yr iaith Gymraeg, Rhaglen Diwygio Galwedigaethol y DU) byddem yn croesawu gweithio gyda LlCC i sicrhau bod yr ymarferwyr yn cael eu recriwtio a'u datblygu'n effeithiol i roi'r polisïau ar waith. Yn arbennig, lle bydd arian yn cael ei dargedu'n benodol at ddatblygu lleoedd hyfforddiant (fel yn yr Asesiad Dysgu a Sgiliau Blynyddol diweddar 06-09 lle rhoddwyd blaenoriaeth i 40,000 o leoedd ar raglen E-Sgiliau ITQ) dylai fod cyfrifiad cyfatebol i bennu'r codiad yn nifer yr ymarferwyr mae eu hangen i gyflwyno agenda dysgu oedolion yn y gymuned.

Mae LLUK yn cydnabod bod y dadansoddiad o bobl ifanc NEET yn hanfodol er mwyn targedu'r strategaeth i ganolbwyntio ar y grwpiau a restrir ym mharagraff 3. Ond yr un mor bwysig yw dadansoddiad o ymyriadau presennol, amgylcheddau dysgu a **Nodi Anghenion Presennol Datblygu'r Gweithlu a rhai'r Dyfodol** ar gyfer y bobl sydd wrthi ar hyn o bryd yn ymdrin â'r grwpiau hyn neu'r sawl a fydd yn cefnogi'r cynigion ar gyfer ymdrin â'r grwpiau hyn yn y dyfodol.

Mae LLUK yn awyddus i allu manteisio ar **wybodaeth am y farchnad lafur sy'n 'gywir ac yn awdurdodol'** a'r galw am ddysgu oddi wrth y sectorau sy'n cael eu cynrychioli gan y 24 Cyngor Sgiliau Sector arall, ar ran y sector Dysgu Gydol Oes. Er mwyn i'r disgwyliad hwn ar Gynghorau Sgiliau Sector (CSSau) eraill fod yn un rhesymol – mae'n hanfodol i'r sector Dysgu Gydol Oes sicrhau bod trefn ar ei sector yntau, a'i fod mewn sefyllfa i leisio ei alwadau ei hun ar sail yr un safonau o ddata 'cywir ac awdurdodol' y byddai'n ei disgwyl/mynnu oddi wrth sectorau eraill yr economi. Byddai LLUK yn croesawu adolygiad strategol o sut gallai'r sector Dysgu Gydol Oes gyflawni hyn mewn partneriaeth â'r holl randdeiliaid allweddol, wrth gydnabod bod rôl arweiniol LLUK ar **wybodaeth am y farchnad lafur** yn cael ei chydnabod a'i chefnogi gan bob rhan o Lywodraeth y Cynulliad.

Mewn amgylchedd a arweinir gan y galw sy'n ymgorffori anghenion y Cyflogwyr; Cymunedau; Unigolion a Buddsoddwyr allanol mae'n hanfodol yn nhermau paratoi pobl am waith, yn enwedig y sawl nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant ar hyn o bryd, a'r heriau demograffeg penodol mae Cymru yn eu hwynebu, bod y 'cyflenwad' o ddata dysgu a gweithlu yn cael ei gasglu'n lleol hefyd.

8. A oes grwpiau penodol o ddysgwyr, nad ydynt wedi'u crybwyll yma, y dylai'r polisi eu hystyried?

Nid yw'r blaenoriaethau yn cydnabod y manteision cymdeithasol ac iechyd i ddysgwyr hŷn o barhau i gymryd rhan mewn dysgu. Mae gan lawer o ddysgwyr hŷn gymwysterau uwchlaw lefel dau ond angen diweddaru eu sgiliau er mwyn parhau neu ddychwelyd i gyflogaeth neu gyfrannu at eu cymunedau drwy waith gwirfoddol a chyfranogiad cymunedol.

Mae NIACE wedi cynhyrchu ymchwil arwyddocaol sy'n dangos bod ysgolion yn cyfrif am ddim ond rhyw 25% o berfformiad plentyn, gyda ffactorau eraill yn gyfrifol am y 75% arall, yn enwedig incwm, addysg a chyfranogiad rhieni. Mae astudiaethau eraill wedi dangos sut mae agweddau negyddol tuag at addysg yn cael eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r nesaf ac mai plant â'r sgiliau sylfaenol gwaelaf sydd fwyaf tebygol o fod â rhieni a adawodd yr ysgol heb unrhyw gymwysterau neu gydag agweddau negyddol tuag at addysg. Ochr yn ochr â buddsoddi mewn codi perfformiad addysgol pobl ifanc, rhaid wrth raglenni sy'n anelu at **Ddysgu Teuluol, Gweithio gyda Rhieni**, gofalwyr, neiniau a theidiau ac eraill. **Mae'n hanfodol felly taro cydbwysedd lle bydd rhaglenni sy'n targedu plant a phobl ifanc yn cael eu hategu gan drefniadau digonol ar gyfer oedolion.**

Rydym yn cydnabod bod anghenion cymhleth a rhyng-gysylltiedig y grŵp NEET yn gofyn am gydweithio ar draws ystod o wasanaethau cyhoeddus gan gynnwys dysgu oedolion yn y gymuned ac rydym yn cefnogi mabwysiadu **ymagwedd gydweithredol** yng Nghymru.

Gallai cydweithrediad ar draws asiantaethau a sectorau uchafu effeithiolrwydd buddsoddiad mewn darpariaeth ddysgu i bobl hŷn leihau'n sylweddol gwariant ar iechyd a lles cymdeithasol yn y dyfodol.

Nid oes unrhyw gydnabyddiaeth o'r rhyngberthynas gymhleth rhwng dysgu yn y gweithle a dysgu cyffredinol i oedolion.

Mae prinder ymarferwyr dysgu sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn ystyriaeth i'r holl weithlu dysgu gydol oes nid yn unig dysgu oedolion yn y gymuned. Mae **Hybu Strategaethau Gyrfaoedd a Recriwtio, i *ehangu'r gronfa recriwtio*** yn gynyddol ar bob lefel, yn dibynnu ar y system dysgu gydol oes yn cael mynediad i ddoniau pobl ragorol sy'n adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau/cyflogwyr maent yn eu gwasanaethu. Mae rhaglenni rheoli dawn sy'n targedu grwpiau penodol a dangynrychiolir wedi cael effeithiau cadarnhaol iawn ar gyfraddau ymgysylltu a llwyddo dysgwyr.

Yn 2007, cafodd Dysgu Gydol Oes yn y DU (LLUK) ei gomisiynu i gynnal archwiliad o sgiliau Cymraeg a dwyieithog staff sy'n gweithio ym meysydd dysgu oedolion yn y gymuned a ariennir gan yr Awdurdod Lleol (AALl), sefydliadau addysg bellach (AB), sefydliadau addysg uwch (AU) a darparwyr dysgu seiliedig ar waith (DSW) a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru. Y nod oedd cefnogi'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (LlCC) i ddatblygu polisi a strategaeth ar gyfer cyflwyno dysgu'n ddwyieithog ac yn y Gymraeg. Mae'r adroddiad llawn ar gael i'w weld yn:
<http://www.lluk.org/documents/Welsh_Lang_Audit_FINAL_April_2008.pdf>

Ym Mawrth 2007, cafodd Dysgu Gydol Oes yn y DU (LLUK) ei gontractio i ddatblygu safonau proffesiynol i ymarferwyr yn y sector dysgu gydol oes yng Nghymru (AB, DSW a dysgu oedolion yn y gymuned). Cafodd ei gytuno, drwy ymgynghori, y dylai fod un set o safonau ar gyfer yr holl ymarferwyr hyn. Mae hyn wedi cael ei gwblhau, gan adlewyrchu cyd-destun Cymreig dwyieithrwydd, llwybrau 14-19 ac ESDGC yn llawn. Cafodd y safonau newydd eu cymeradwyo gan Ddirprwy Weinidog, Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC), John Griffiths, ym mis Hydref 2007.

Mae nifer o ganllawiau cymhwyso wedi cael eu datblygu gan LLUK i roi'r safonau proffesiynol newydd yn eu cyd-destun ar gyfer athrawon arbenigol yng Nghymru, gan gynnwys Cymraeg i Oedolion, Dwyieithog neu gyfrwng Cymraeg, Rhifedd/Rhif, Llythrennedd/Cyfathrebu ac ESOL.

Mae'r dogfennau cymhwyso hyn yn diffinio'r wybodaeth, dealltwriaeth ac arfer proffesiynol a ddisgwylir oddi wrth athrawon y pynciau hyn yng Nghymru, a gellid eu defnyddio'n sail i ddatblygu cymwysterau a datblygiad proffesiynol i'r athrawon hyn, fel y bo'n briodol.

Mae LLUK wedi cael ei gontractio gan LlCC i ddiweddaru'r canllawiau cymhwyso at ddefnydd technoleg i gefnogi addysgu a dysgu a'r astudiaethau achos cysylltiedig. Bydd y canllawiau yn rhoi'r safonau proffesiynol presennol yn eu cyd-destun ar gyfer athrawon / tiwtoriaid

/hyfforddwyr a darlithwyr yng Nghymru i roi arweiniad penodol i ymarferwyr sy'n defnyddio technolegau dysgu i gyflwyno ac ategu e-ddysgu h.y. cyflwyno dysgu drwy gyfrwng technoleg. Yn ogystal, caiff canllawiau cymhwyso ar sail safonau rheoli ac arwain y Cyngor Safonau Rheoli eu hysgrifennu i gefnogi'r sawl sy'n arwain wrth gynllunio a defnyddio staff addysgu a staff cynorthwyo e.e. arweinwyr tîm, penaethiaid adran/cyfadran.

9. Beth yw'r ffordd orau o greu mwy o synergedd rhwng meysydd gwahanol o gymorth ar gyfer y maes Dysgu Oedolion yn y Gymuned?

Mae LLUK yn edrych ymlaen at weld cyhoeddi, a ddylai ddigwydd yn Ionawr 2009, adolygiad NIACE o bolisïau a strategaethau LlCC ar draws adrannau i nodi synergeddau mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant oedolion. Dylai dysgu oedolion yn y gymuned gael ei weld yn rhan o'r ymagwedd integredig ehangach at addysg a hyfforddiant sy'n cael ei chynnig gan LlCC yn hytrach nag yn rhywbeth sy'n bodoli ar gyrion addysg a hyfforddiant.

Cydnabyddir yr angen i wneud defnydd gwell ar adnoddau presennol i gefnogi dysgu oedolion yn y gymuned ar y llawr ond hefyd mae angen gwneud cysylltiadau gwell ar lefel strategol rhwng adrannau gwahanol yn LlCC. Oherwydd ei ffocws ar y gymuned, mae dysgu oedolion yn y gymuned yn pontio nifer o fentrau polisi ar draws adrannau fel **Treftadaeth** yn achos llyfrgelloedd**, Cyfiawnder Cymdeithasol** yn achos datblygiad cymunedol, adfywio, iechyd a datblygiad economaidd.

Mae angen ystyried y partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned o fewn cyd-destun y cynigion Trawsnewid Addysg a Hyfforddiant.

Mae angen ymgorffori effaith polisi ffioedd yn yr adolygiad o Ddysgu Oedolion yn y Gymuned. Does dim dwywaith y bydd y polisi hwn yn effeithio'n sylweddol ar ddysgwyr dysgu oedolion yn y gymuned ac fe allai arwain at gystadleuaeth ymhlith darparwyr i gyflwyno i'r dysgwyr hynny sy'n debycaf o allu talu.

Hawl Dysgwyr: Mae LLUK yn cynnig y dylai fod gan ddysgwyr hawl i gael mynediad i Athrawon, Tiwtoriaid a Hyfforddwyr â'r cymwysterau a chefnogaeth briodol (Datblygiad Parhaus a Phroffresiynol) ym mha sefyllfa bynnag y mae dysgu'n digwydd. Dylai'r cynnig am y polisi cyfraniadau gymryd hyn i ystyriaeth yn nhermau diogelu gwerth am arian.

10. A ydych yn cytuno â'r angen am ddull mwy cyson o fesur cynnydd a chyflawniad ym maes dysgu anffurfiol?

Mae LLUK yn cefnogi'r achos dros newid, ond yn yr un modd ag ymatebion cyrff partner, credwn mai'r manylion sy'n hollbwysig. Argymhellwn yn gryf y dylai arian cyhoeddus gael ei ddefnyddio mewn ffyrdd sy'n denu cyllid - gan fuddsoddiad yng ngweithlu'r Sector Dysgu Gydol Oes i'w alluogi i uwchraddio ansawdd y ddarpariaeth ddysgu'n gyson, a thrwy hynny gyfrannu at gynyddu'r galw am ddysgu.

Mae LLUK yn cefnogi'n llawn y cynigion i greu ymagwedd fwy cyson at fesur cynnydd a chyflawniad mewn dysgu anffurfiol a gweithrediad Pecyn Offer Ychwanegu Gwerth gan ddefnyddio model RARPA. Caiff ei gydnabod eisoes fel arfer da gan Estyn, a'i ddefnyddio gan lawer o ddarparwyr, a byddai'n ddefnyddiol petai hwn yn cael ei ymgorffori'n fwy ffurfiol yn y Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd ar gyfer dysgu ôl-16.

Dylai pob darparwr weithredu yn ôl y safonau a amlinellir yn y Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd ar gyfer dysgu ôl-16. Ond er mwyn bodloni'r safonau a amlinellir yn y Fframwaith, mae angen dyrannu arian digonol am hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus staff sy'n diwtoriaid ac athrawon ôl-16. Rhaid peidio ag ystyried dysgu oedolion yn y gymuned fel gweithredu ar drothwy ansawdd is na darpariaeth addysg a hyfforddiant arall a ariennir yn

gyhoeddus. Gan hynny, dylai lefelau priodol o gyllid, sy'n gymesur â'r hyn a ddarperir ar gyfer fframweithiau cymaradwy ar draws meysydd eraill addysg a hyfforddiant, fod ar gael i atal datblygiad system dwy-haen.

Er bod LLUK yn cydnabod gofynion angenrheidiol a statudol cefnogi datblygiad athrawon yn y sector statudol (ysgolion), mae pryder difrifol gennym o hyd am y diffyg arian mae LlCC yn gallu ei ddyrannu tuag at lefelau teg o ddatblygiad cychwynnol a datblygiad proffesiynol parhaus i athrawon a staff cynorthwyol yn y sector ôl-orfodol sy'n cyflwyno addysg ffurfiol ac anffurfiol fel ei gilydd, gan fodloni anghenion amrywiol y grŵp hwn o ddysgwyr. Rydym yn cydnabod bod hwn yn fater y mae angen i gabinet LlCC fod yn berchen arno hefyd o ran maint y gyllideb sy'n cael ei dyrannu i LlCC. Rydym yn ystyried y mater hwn yn **risg difrifol** i gyflwyniad effeithiol y Strategaeth dysgu oedolion yn y gymuned.

11. Ai'r rhain yw'r camau gweithredu cywir i wella ansawdd ym maes Dysgu Oedolion yn y Gymuned? A ddylem gynnwys unrhyw gamau gweithredu eraill?

Mae LLUK yn croesawu'r cysylltiadau a wnaed rhwng Ansawdd ac anghenion Datblygiad Proffesiynol Parhaus y gweithlu a nodir yn Adran 4.

Yn ystod 2006 a 2007 mae cyflogwyr a rhanddeiliaid dysgu oedolion yn y gymuned wedi gweithio'n agos gyda Dysgu Gydol Oes yn y DU (LLUK) i ddatblygu Cytundeb Sgiliau Sector i'r Sector Dysgu Gydol Oes. Dysgu Gydol Oes yn y DU yw'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer y sector Dysgu a Datblygu Oedolion yn y Gymuned, Addysg Bellach, Addysg Uwch, Llyfrgelloedd, Archifdai a Gwasanaethau Gwybodaeth a Dysgu Seiliedig ar Waith, ac yn gyfrifol am yr arweinyddiaeth strategol angenrheidiol a'r camau i fodloni anghenion ei sector o ran sgiliau a busnes.

Cymerodd y gwaith a wnaed i ddatblygu'r Cytundeb Sgiliau Sector i ystyriaeth gwaith NIACE DC 2005/6 ar Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus, ac wedi gosod yr ystyriaethau o ran Datblygiad Parhaus ***a***[1] Phroffesiynol (DPPh) o fewn cyd-destun y gweithlu Dysgu Gydol Oes ehangach. Mae'r Cytundeb Sgiliau Sector wedi amlygu'r angen i ystyried DPPh yn gyfannol ar draws y sector Dysgu Gydol Oes i gefnogi mwy o symudedd yn y Farchnad Lafur ar draws y Sector – roedd y symudedd gwell hwn yn y Farchnad Lafur yn un o ddyheadau Y Wlad sy'n Dysgu (2001) ac Y Wlad y'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith (2006) fel ei gilydd.

Mae LLUK wedi gweithio gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid yng Nghymru er 2005 i ddatblygu cyfres o Safonau Proffesiynol a Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol i gefnogi rolau o fewn y Sector Dysgu Gydol Oes, gan gynnwys rolau Dysgu Adult a Dysgu Cymuned. Hoffai LLUK argymell y dylai datblygiad ymyriadau DPPh (yn rhai anffurfiol a rhai achrededig) ar gyfer rolau o fewn dysgu oedolion yn y gymuned gael eu seilio ar y Safonau Proffesiynol a Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a ddatblygwyd gan LLUK. Mae mwy o wybodaeth am safonau LLUK ar gael oddi wrth walesenquiries@lluk.org. Bydd hyn yn sicrhau bod datblygu darpariaeth yn y dyfodol wedi ei seilio ar safon gydnabyddedig ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru, ond yn cymryd i ystyriaeth cysylltiadau â'r Sector Dysgu Gydol Oes ehangach yng Nghymru, ac fe allai arwain at achrediad (lle bo'n briodol) fel rhan o'r Strategaeth Cymwysterau Sector. Ar hyn o bryd mae LLUK wrthi'n gweithio gyda Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd LlCC a chydag ESTYN ar integreiddio defnydd Safonau Proffesiynol a Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol i arfer gweithio cydnabyddedig.

Yn ogystal â'r cyfle i wella yng nghymwyseddau rheoli prosiectau, costio cyrsiau, marchnata, adolygu systemau ansawdd, sgiliau tiwtor, sgiliau rheoli, a sgiliau mentergarwch a nodwyd o fewn adran DPP y papur ymgynghori – mae'r cynigion ymgynghori ehangach wedi amlygu'r angen i weddnewid trefniadau llywodraethu (tud 18); cynyddu'r tiwtoriaid sy'n siarad Cymraeg (er

[1] Rhoddodd cyflogwyr ar draws maes ehangach Dysgu a Datblygu Cymunedol arweiniad clir yn ystod proses y Cytundeb Sgiliau Sector y dylid cyfeirio at Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus fel Ddatblygiad Parhaus ***a*** Phroffesiynol gan fod yr ymadrodd hwn yn fwy cynhwysol a oedd yn cynnwys pob unigolyn o fewn y gweithle, ac nid dim ond y sawl y bernir bod eu cymwysterau'n rhai proffesiynol.

gwaetha'r prinderau a nodwyd); blaenoriaethu darpariaeth Sgiliau Sylfaen ac ESOL; rôl well ar gyfer e-ddysgu wrth gyflwyno dysgu oedolion yn y gymuned (gyda goblygiadau i sgiliau TGCh personol a sgiliau ILT). Mae'r materion hyn, ymhlith eraill, wedi cael eu hamlygu o fewn Cytundeb Sgiliau Sector y Sector Dysgu Gydol Oes:

Mae crynodeb o argymhellion y Cytundeb Sgiliau Sector ar gyfer for dysgu oedolion yn y gymuned (o fewn cyd-destun y Sector Dysgu Gydol Oes ehangach) yn cynnwys:

- Cydweithredu â chyflogwyr/rhanddeiliaid allweddol i sefydlu Partneriaeth Strategol Datblygu'r Gweithlu i ddatblygu Strategaeth Datblygu'r Gweithlu a Chynllun Gweithredu i Gymru sy'n rhoi arweiniad ychwanegol ar weithredu Cytundeb Sgiliau Sector LLUK ar gyfer system dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru.
- O fewn cyd-destun y DU, gweithio gyda dysgu oedolion yn y gymuned i gytuno ar ystyr statws proffesiynol a chydnabyddiaeth broffesiynol i ddysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru
- Datblygu fframwaith a model DPP integredig ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned
- Derbyn diwygiad cychwynnol y Fframwaith Cymwysterau Athrawon i Gymru (Cynigion a gyflwynwyd i LlCC ym Mawrth 08)
- Cefnogi cyflogwyr dysgu oedolion yn y gymuned wrth symud tuag at gyfleoedd dysgu a hyfforddi sy'n canolbwyntio mwy ar y dysgwr/yn cael eu harwain gan y galw
- Nodi rolau a llwybrau gyrfa presennol o fewn dysgu oedolion yn y gymuned ac ar draws y Sector Dysgu Gydol Oes
- Datblygu deunydd priodol am Wybodaeth, Cyngor ac Arweiniad Gyrfaoedd
- Pennu'r meysydd critigol (ar unwaith ac ar y gweill) lle bo angen strategaethau cynllunio olyniant/recriwtio ar frys. Cynnwys data o Adolygiad Effaith LLUK a chynnal archwiliadau yn ôl yr angen. Gweithio gyda phartneriaid i gynnal archwiliadau a datblygu rhaglenni recriwtio pwrpasol i gefnogi • Sgiliau Sylfaenol ac ESOL Tiwtoriaid • Cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg • Sgiliau cyflwyno dwyieithog eraill, Proffiliau cydraddoldeb ac amrywiaeth y gweithlu, • Erydiad demograffaidd
- Pennu gofynion cyflogwyr dysgu oedolion yn y gymuned o ran Rheoli ac Arwain ac ystyried cysyniadau 'Paratoi i Reoli/Arwain yn y Sector Dysgu Gydol Oes'
- Datblygu'r achos busnes a'r adnoddau i gefnogi defnydd technoleg yn y sector, yn enwedig mewn perthynas ag ICT a ILT

Mae copi o'r adroddiad cyfnod 5 i'w weld yn
http://www.lluk.org/documents/sector_skills_agreement_stage_5_wales.pdf

Mae LLUK yn cefnogi'n llawn yr angen i wneud penderfyniadau gwybodus am ddatblygu'r gweithlu ar sail Gwybodaeth gywir ac awdurdodol am y Farchnad Lafur. Yn Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru, mae LlCC wedi cadarnhau y bydd yn '*parhau i chwarae'r rôl arweiniol mewn cyd-drefnu a lledaenu gwybodaeth am y farchnad lafur (LMI) yng Nghymru, gan weithio'n agos gyda Cvhyngorau Sgiliau Sector'*. Mae LlCC yn dymuno i Gynghorau Sgiliau Sector ganolbwyntio ar *'gynnal dadansoddiadau cenedlaethol o anghenion a gofynion sectorol y farchnad lafur'.* Byddai LLUK yn argymell adolygu'r system ar gyfer casglu Gwybodaeth am y Farchnad Lafur i gyflogeion a gwirfoddolwyr dysgu oedolion yn y gymuned ar y cyd ag LLUK a phartneriaid eraill, er mwyn caniatáu datblygu ymagwedd symlach sy'n atal dyblygu ymdrech ymhlith y partneriaid. Bydd hyn yn galluogi casglu data cadarn ac awdurdodol am y gweithlu dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru i lywio datblygu strategaeth ddatblygu'r gweithlu hwnnw.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn cydnabod '*Ceir materion o ran ansawdd a datblygu staff sy'n benodol i ddysgu oedolion yn y gymuned'* (Tud7 para 3) ac yn datgan bod *'Mae'n bwysig ein bod yn parhau i gefnogi'r arfer o gydnabod cyflawniad a galluogi cynnydd'* (Tudalen 8 para 5). Rhaid i'r egwyddor hon ddod yn gydran hanfodol datblygu unrhyw fframwaith DPP yn y dyfodol ar gyfer staff dysgu oedolion yn y gymuned – mae'n hanfodol i ni ddilyn ein pregeth ein hun. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn datgan '*Yn achos dysgwyr sy'n gallu talu am y ddarpariaeth a ddewiswyd ganddynt, mae'n rhesymol disgwyl i ddarparwyr gyflwyno ffioedd ar gyfer cyrsiau dysgu oedolion yn y gymuned'* (Tud4 para 6). Fel arfer mae atodi ffi wrth unrhyw gynnyrch neu wasanaeth yn

golygu codiad yn yr ansawdd a ddisgwylir gan y ddarpariaeth honno. Mae'r maen prawf ariannu at y dyfodol i '*Ymgymryd â darpariaeth a allai eu galluogi i symud ymlaen at weithgareddau dysgu pellach neu gyflogaeth, boed yn gyflogedig neu'n wirfoddol'* (Tud 4 para 1) yn cydnabod y rôl mae dysgu oedolion yn y gymuned yn ei chwarae wrth annog dysgwyr newydd i barhau i ddysgu gydol eu hoes. Mae angen i gyflwyniad cychwynnol ym maes dysgu oedolion yn y gymuned fod yn brofiad ansawdd dda i gefnogi amcanion unrhyw raglen benodol dysgu oedolion yn y gymuned, ond hefyd i gefnogi dilyniant dysgu ymlaen i raglenni dysgu eraill – dylai fod gan ddysgwyr ym maes dysgu oedolion yn y gymuned hawl i gael tiwtoriaid sydd wedi eu hyfforddi i addysgu, y mae eu cyflawniadau'n cael eu cydnabod ac y mae ganddynt hwy eu hun y gallu i ddatblygu eu dysgu eu hun o fewn fframwaith cytûn a chydnabyddedig. Ym Mai 2008 cyflwynodd LLUK argymhellion rhagarweiniol am ddatblygiad Fframwaith Cymwysterau Athrawon i Gymru, a phennodd gynigion am gyfeiriad teithio yn y dyfodol. Cafodd yr argymhellion eu datblygu drwy gyfrwng proses ymgynghori helaeth a gynhwysodd Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Oedolion yn y Gymuned. Byddai LLUK yn annog LlCC i benderfynu'n ddi-oed ar yr argymhellion hyn, i ganiatáu symud ymlaen â'r gwaith hwn fel cydran bwysig yr ymgynghoriad hwn ac unrhyw waith datblygu yn y dyfodol.

Byddai LLUK yn argymell y dylai unrhyw waith pellach ar Ddatblygiad Parhaus a Phroffesiynol gael ei wneud mewn partneriaeth ag LLUK fel rhan o gyflwyno Cytundeb Sgiliau Sector y Sector Dysgu Gydol Oes.

Mae LLUK yn croesawu'r cysylltiadau a wnaed â darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned mewn Llyfrgelloedd ac Archifdai a gweithgarwch Datblygiad Cymunedol. Mae LLUK yn cefnogi datblygiad strategaeth gyfannol datblygu'r gweithlu sy'n cynnwys pob llwybr dysgu oedolion yn y gymuned.

Mae cyflogwyr a rhanddeiliaid dysgu oedolion yn y gymuned yn cael eu cynrychioli ar Grŵp Ymgynghorol Dysgu a Datblygu Cymunedol Cymru, ac ar Bwyllgor Gwlad Cymru (Atodiad 2).

12. A oes unrhyw feysydd penodol lle dylid datblygu cysylltiadau â Dysgu Oedolion yn y Gymuned?

Mae cysylltiadau amlwg i'w datblygu rhwng y polisi dysgu oedolion yn y gymuned a rhaglenni/strategaethau dilynol LlCC:

- Dechrau'n Deg - **'Dysgu Teuluol'**
- Strategaeth Cyfnod Sylfaen: o ystyried y dystiolaeth sy'n cysylltu datblygiad plant â ffactorau fel lefelau addysgol rhieni – **'Gweithio Gyda Rhieni'**
- Ysgolion Bro
- Cyfiawnder Cymdeithasol - **Datblygiad Cymunedol**
- Treftadaeth – CyMAL, **Llyfrgelloedd, Archifdai a Gwasanaethau Gwybodaeth**
- Strategaeth y Gwasanaeth Ieuenctid – **Gwaith Ieuenctid**
- Strategaeth Pobl Hŷn
- Strategaeth Sgiliau Sylfaenol ac ESOL
- Strategaeth Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog
- Strategaeth ESDGC
- Strategaeth ICT/ILT
- Arwain a Rheoli
- Llwybrau Dysgu 14-19
- Fframwaith Ansawdd ac effeithiolrwydd
- CQFW
- Strategaeth Ymgyrraedd yn Uwch – Ehangu Mynediad i AU
- Cynllun Oes: yng ngoleuni'r dystiolaeth gryf sy'n dangos buddion iechyd cymryd rhan mewn dysgu
- Credwn fod angen cryfhau'r cysylltiadau rhwng dysgu oedolion yn y gymuned a **Dysgu Seiliedig ar Waith** yn y ddogfen o ystyried y ffaith bod addysg mewn lleoliadau gwahanol,

gan gynnwys y gweithle, yn cefnogi ehangu cyfranogiad, sgiliau sylfaenol a chydlyniad cymdeithasol.

Atodiad 1 – Ôl troed Dysgu a Datblygu Cymunedol

Mae **dysgu oedolion yn y gymuned** yn cynnwys pob person ifanc ac oedolyn ac yn digwydd mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae'n chwarae rôl fawr mewn adeiladu cynhwysiant cymdeithasol a chefnogi adfywiad sifil. Gall y rhai a gyflogir yn y maes hwn weithio wyneb i wyneb, ac mae eu rôl yn cynnwys arwain dysgu drwy addysgu neu diwtora, cefnogi dysgu drwy diwtora, darparu arweiniad a hwyluso dysgu.

Mae **gwaith datblygu cymunedol** yn rhagdybio bod cyfoeth o wybodaeth a phrofiad o fewn unrhyw gymuned sydd, o'u defnyddio'n greadigol, yn arwain at lefelau o gyfranogiad ac yn gallu cael eu sianelu i mewn i weithgarwch cyfunol i gyflawni dyheadau'r gymuned. Mae gweithwyr datblygu cymunedol yn gweithio ochr yn ochr â phobl mewn cymunedau i feithrin cysylltiadau â phobl a grwpiau allweddol, hwyluso nodi pryderon cyffredin a helpu i greu grwpiau ymreolaethol. Drwy alluogi pobl i weithredu gyda'i gilydd, mae gweithwyr datblygu cymunedol yn helpu i feithrin cynhwysiant cymdeithasol a chydraddoldeb.

Mae **addysg gymunedol** yn ymgorffori'r ystod o anghenion dysgu gydol oes gydag ymagwedd gyffredin rhwng gwaith gydag oedolion, pobl ifanc a phlant, a darparu cymorth addysgol gyda datblygiad cymunedol. Mae ei phwyslais ar ddarparu cymorth dysgu a datblygu cymunedol i unigolion a grwpiau ar sail anghenion ac ystyriaethau sydd wedi eu nodi.

Gall **addysg ddatblygu** gael ei diffinio fel Dysgu Gydol Oes sydd: yn caniatáu i bobl ddeall y cysylltiadau rhwng eu bywydau eu hun a bywydau pobl ledled y byd; yn cynyddu dealltwriaeth o'r grymoedd economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol ac amgylcheddol sy'n siapio ein bywydau; yn datblygu'r sgiliau, agweddau a gwerthoedd sy'n galluogi i bobl i gydweithio wrth gymryd camau i greu newid a chymryd rheolaeth dros eu bywydau eu hun; yn gweithio tuag at gyflawni byd tecach a mwy cynaliadwy lle bydd grym ac adnoddau'n cael eu rhannu'n decach.

Mae **dysgu teuluol** yn y bôn yn ddysgu sy'n digwydd mewn cyd-destun 'aml-genhedlaeth'. Mae'r gwerthoedd, agweddau a diwylliant rydym yn eu dysgu gan ein teuluoedd yn gallu aros gyda ni drwy gydol ein bywydau. Mae cynlluniau dysgu teuluol yn aml yn ail gyfle i rieni, a mam-gu a thad-cu, ddychwelyd i ddysgu. Mae dysgu teuluol yn cwmpasu llythrennedd teuluol, rhifedd teuluol, TG teuluol, dosbarthiadau a gweithgareddau i deuluoedd, cyrsiau mewn magu plant fel byw gyda phlant yn eu harddegau, chwarae gyda'ch plentyn, helpu plant i ddysgu, delio ag ysgol eich plentyn, a deall am gyffuriau.

Mae **addysg magu plant** yn ymagwedd addysgol gydweithredol sy'n defnyddio cyfuniad o wybodaeth, sgiliau dysgu a magu cymorth cymheiriaid a rhwydweithiau i alluogi rhieni i ddeall eu plant a'u hanghenion yn well a theimlo'n fwy hyderus a chymwys fel rhieni. Mae'n ymagwedd sy'n berthnasol i bawb sy'n dod i gysylltiad â phlant ac fe all chwarae rhan werthfawr mewn cynyddu'r berthynas a sgiliau a dealltwriaeth pob un ohonom. Mae cymhlethdod y sgiliau mae eu hangen ar y rhai sy'n gweithio gyda rhieni ar ba ffurf bynnag yn amlwg, nid lleiaf wrth ystyried cyfrifoldeb mawr gwneud gwaith a fydd yn cael effaith aruthrol ar fywydau pobl.

Mae **gwaith ieuenctid** yn cynnig i bobl ifanc rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol cynlluniedig a digymell fel ei gilydd. Fel rhan o agenda ehangach gwaith ieuenctid 14 – 19 mae'n paratoi pobl ifanc am fywyd. Mae amrywiaeth eang o ymarfer i fodloni anghenion pobl ifanc gan gynnwys grwpiau celfyddydau a drama, cynghori, gwaith ieuenctid ar wahân neu ar y stryd, grwpiau ffydd, canolfannau gwybodaeth a chyngor, gwaith allgymorth gyda grwpiau anfanteisiol, gwaith prosiect ar faterion iechyd, darpariaeth ar sail ysgolion a cholegau, grwpiau mewn lifrai (Sgowtiaid a Guides, Unedau Cadetiaid ac ati), a grwpiau gwasanaeth gwirfoddol. Hanfod gwaith ieuenctid yw galluogi'r pontio o blentyndod i fywyd annibynnol fel oedolyn. Gan hynny mae darparu gwaith ieuenctid yn rhwydwaith cymhleth o ddarparwyr o grwpiau cymunedol drwy ddarpariaeth awdurdodau lleol i gyrff gwirfoddol.

Atodiad 2 - Aelodaeth Paneli a Grwpiau Ymgynghorol LLUK dros Gymru

Panel Gwlad Cymru LLUK

Veronica Wilson	Prif Weithredwr Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru
Rob Humphreys	Cyfarwyddwr Cymru Y Brifysgol Agored
Richard Spear	Cyfarwyddwr Cymru NIACE
Denise Lavis	Cynghorydd Hyfforddiant a Datblygiad Cymal: Llywodraeth Cynulliad Cymru
Alan Watkin	Prif Swyddog, Hamdden, Llyfrgelloedd a Diwylliant Cyngor Bwrdeistref Wrecsam
Dr John Graystone	Prif Weithredwr Fforwm
Jackie Doodson	Pennaeth Cynorthwyol Cynllunio a Safonau Coleg Llandrillo
Bryn Davies	Prifathro Coleg Ystrad Mynach
Helen James	Cyfarwyddwr Strategaeth Datblygu Addysg Uwch ac Addysg Bellach Athrofa Addysg Uwch Gogledd-ddwyrain Cymru
Helen Arthur	Pennaeth gwella dysgu a datblygiad proffesiynol Llywodraeth Cynulliad Cymru
Arwyn Watkins	Rheolwr Gyfarwyddwr Cambrian Hyfforddiant Cadeirydd NTFW
Sian Cartwright	Pennaeth Gwasanaethau Dysgu TUC Cymru
David Hunter	Prif Weithredwr Dysgu Gydol Oes yn y DU
Michelle Sayers	Rheolwr Cenedlaethol Cymru Dysgu Gydol Oes yn y DU
Karen Jones	Cynghorydd Polisi Addysg Uwch Cymru
Bridget Moseley	Rheolwr Hyfforddiant Coleg Sir Gâr
Richard Newton	Cyfarwyddwr Rathbone
Derith Powell	Datblygiad Cymunedol, Cymru: *Cadeirydd*
Mike Keating	Cyfarwyddwr Addysg, Rhondda Cynon Taf
Danny Saunders	Prifysgol Morgannwg: *Pennaeth y Ganolfan Dysgu Gydol Oes*
Lisa Newbury	Addysg Uwch Cymru
Susan Edwards	Archifdy Morgannwg: *Archifydd Morgannwg*

Grŵp Ymgynghorol Dysgu a Datblygu Cymunedol Cymru

Veronica Wilson	Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru
Justine Scorrer	Datblygiad Cymunedol, Cymru a Phrifysgol Morgannwg

Graham Price	Cymdeithas Addysg y Gweithwyr
Lucy Aktar	Plant yng Nghymru
Dominic Miles	Cyfanfyd
Cerys Furlong	NIACE Dysgu Cymru
Courtney Taylor	AADGOS, Gwaith Ieuenctid ac ESDGC
Liz Kidd	ETS
Mike Hughes	Dinas a Sir Abertawe, WLGA
Alice Greenlees	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru